Telerau ac Amodau'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd – 2022

Gwneir y cytundeb hwn rhwng y preswylydd ('Cwsmer') a Chyngor Sir y Fflint ('y Cyngor') o Ddepo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint, CH7 6LG, ac mae'n nodi'r Telerau ac Amodau i'r Cwsmer allu defnyddio Gwasanaeth Casglu gwastraff gardd bob pythefnos y Cyngor ('y Gwasanaeth'). Gall y Cyngor amrywio neu newid y Telerau ac Amodau hyn o bryd i'w gilydd. Bydd y Cwsmer yn cael rhybudd ysgrifenedig o 10 diwrnod am unrhyw newidiadau o'r fath.

1. Yn unol â Rheoliadau Contractau Defnyddwyr (Gwybodaeth, Canslo a Thaliadau Ychwanegol) 2013, mae gan y Cwsmer 14 diwrnod o dderbyn y Telerau ac Amodau hyn i ofyn am ganslo'r Gwasanaeth. Rhaid gwneud ceisiadau i ganslo'r Gwasanaeth yn ysgrifenedig i Gyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint, CH7 6LG neu drwy e-bost, streetscene@flintshire.gov.uk. Ni ellir canslo dros y ffôn.

2. Bydd casgliadau'r Gwasanaeth ar gael i Gwsmeriaid sydd wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth ymlaen llaw ac yn byw yn Sir y Fflint yn unig. Bydd y Cyngor yn penderfynu gwagio neu adael bin gwastraff gardd brown a gyflwynir i'w gasglu oddi wrth y sticer neu'r tocyn adnabod ar y bin, ynghyd â darllenydd cod bar electronig (ac a yw'r bin gwastraff gardd brown yn cynnwys unrhyw ddeunydd wedi'i halogi – gweler Cymalau 11 a 12).

3. Mae tanysgrifiadau Cwsmeriaid yn gallu cael eu hadnewyddu bob blwyddyn ar gyfer y tymor casglu canlynol ('Cyfnod Tanysgrifio'). Dim ond Cwsmeriaid sydd wedi talu am eu tanysgrifiad sy'n gymwys i gael y Gwasanaeth. Bydd y Cwsmer yn cael gwybod am unrhyw gynnydd yn y pris cyn dechrau Cyfnod Tanysgrifio newydd.

4. Mae'r tanysgrifiad i'r Gwasanaeth yn cynnwys tâl blynyddol fel y ganlyn:

   a) Taliadau cyn 28 Chwefror 2022 = £32.00 fesul bin
   b) POB taliad ar-lein (trwy gydol y tymor casglu) = £32.00 fesul bin
   c) Cyfradd safonol o 1 Mawrth 2022 = £35.00 fesul bin

   Mae'r tâl hwn i'r Cwsmer ar gyfer casglu un bin gwastraff gardd brown, sydd wedi'i bennu gan y Cyngor am y cyfnod o fis Mawrth tan fis Rhagfyr. Mae prisiau tanysgrifio'n destun adolygiad yn ôl disgresiwn y Cyngor.

5. Gellir darparu biniau gwastraff gardd brown ychwanegol. Bydd tâl o £30 am bob bin gwastraff gardd brown ychwanegol (nid yw hyn yn cynnwys casglu'r bin ychwanegol). Bydd hyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o 3 bin. Ni chaniateir i Gwsmer ddefnyddio mwy na 3 bin gwastraff gardd brown yn rhan o'r Gwasanaeth.

6. Rhag unrhyw amheuaeth, mae unrhyw fin gwastraff gardd brown a ddarperir i'r Cwsmer gan y Cyngor (yn cynnwys unrhyw rai newydd) dan drwydded arbennig sy'n gallu cael ei diddymu, a bydd unrhyw fin o'r fath yn gorfod cael ei ddefnyddio'n unol â'r Telerau ac Amodau hyn. Ni chaniateir i'r Cwsmer is-drwyddedu a bydd y Cyngor yn cadw perchnogaeth o'i holl Hawliau Eiddo Deallusol.

7. Mae'r Cyngor yn gwagio biniau gwastraff gardd brown bob pythefnos, rhwng 1 Mawrth a 10 Rhagfyr bob blwyddyn. Efallai y bydd adegau pan na fydd yn bosib' casglu bin brown y Cwsmer, yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i: dywydd garw iawn, cerbydau'n torri a/neu weithredu diwydiannol. Os yw'r Cyngor yn methu casglu bin gwastraff gardd brown y Cwsmer, fel a drefnwyd, bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i gasglu'r bin(iau) cyn gynted â phosib'. Ni fydd y Cyngor yn rhoi ad-daliadau (llawn neu rannol) mewn unrhyw achos, am fethu neu am nad oedd yn gallu casglu bin gwastraff gardd brown.

8. Y Cwsmer fydd yn gyfrifol am y biniau gwastraff gardd brown, sy'n gorfod aros gyda'r eiddo sydd wedi tanysgrifio pe bai'r Cwsmer yn symud tŷ yn ystod y flwyddyn. Os yw'r Cwsmer yn symud tŷ o fewn Sir y Fflint, gellir trosglwyddo'r tanysgrifiad i'w cyfeiriad newydd. Cysylltwch â'r Cyngor i gadarnhau'r manylion drwy e-bost: streetscene@flintshire.gov.uk <mailto:streetscene@flintshire.gov.uk>. Os nad oes gan yr eiddo newydd yn Sir y Fflint fin brown, bydd angen talu £30 am y bin ei hun, a thalu am danysgrifiad ar wahân i'r Gwasanaeth, fel y nodwyd yng Nghymal 5. Os yw'r Cwsmer yn symud allan o Sir y Fflint, ni roddir ad-daliadau (llawn neu rannol).

9. Nid oes ad-daliadau (llawn neu rannol) am ganslo'r Gwasanaeth hanner ffordd drwy'r flwyddyn. Os oes tystiolaeth o gamddefnyddio'r Gwasanaeth neu o'r bin gwastraff gardd brown gan y Cwsmer, gallai'r Gwasanaeth gael ei ganslo. Ni fydd unrhyw ad-daliad (llawn neu rannol) o dan yr amgylchiadau hyn.

10. Dim ond ar gyfer gwastraff gardd o'r eiddo sydd wedi'i danysgrifio gan y Cwsmer mae hawl i ddefnyddio bin(iau) gwastraff gardd brown. Dim ond gwastraff gardd y gellir ei roi yn rhydd yn y bin.

    Gwastraff gardd y gall y Cyngor ei gasglu: glaswellt, tocion gwrychoedd, brigau, rhisgl, dail, blodau, planhigion a changhennau bach.

    Eitemau na all y Cyngor eu derbyn: canghennau mawr, rhywogaethau planhigion ymledol a rhywogaethau planhigion anfrodorol ymledol, tyweirch, pridd, cerrig, gro, gwastraff bwyd, baw anifeiliaid, cerdyn, plastig, gwastraff cyffredinol, gwellt gwely anifeiliaid.

    Dim ond yr eitemau a restrir yn dderbyniol uchod y bydd y Cyngor yn eu casglu, a bydd unrhyw beth arall yn cael ei drin fel halogiad.

11. Ni fydd biniau gwastraff gardd brown wedi'u halogi (h.y. biniau yn cynnwys eitem(au) na all y Cyngor eu derbyn) yn cael eu gwagio. Os yw bin(iau) gwastraff gardd brown y Cwsmer wedi'u halogi, cyfrifoldeb y Cwsmer yw symud yr eitem(au) wedi'u halogi cyn y casgliad nesaf. Os yw'r halogiad yn parhau, gall y Cyngor ddod â'r Gwasanaeth i ben. Ni fydd unrhyw ad-daliadau (llawn neu rannol) ar achlysuron pan fydd bin gwastraff gardd brown y Cwsmer heb ei wagio oherwydd halogiad.

12. Rhaid rhoi'r bin gwastraff gardd brown wrth ochr yr eiddo neu'r man casglu dynodedig erbyn 7.00am ar ddiwrnod casglu'r Gwasanaeth, yn unol â'r calendr casglu a roddir i Gwsmeriaid gan y Cyngor. Rhaid cau caead y bin yn dynn, ac ni chesglir unrhyw wastraff ar yr ochr h.y. dim gwastraff ychwanegol tu allan neu wrth ymyl y bin neu wedi'i osod ar ben y caead. Os nad yw'r Cwsmer yn gallu mynd â'r bin gwastraff gardd brown at ymyl y ffordd oherwydd anabledd neu broblemau iechyd, mae'n rhaid iddynt wneud cais i'r Cyngor ymlaen llaw am Wasanaeth Casglu â Chymorth.

13. Os yw bin gwastraff gardd brown y Cwsmer yn cael ei ddifrodi, bydd y Cyngor yn ei drwsio neu'n rhoi un newydd, am ddim, cyn gynted ag sy'n ymarferol o fewn rheswm, ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae'r bin gwastraff gardd brown wedi'i ddifrodi drwy esgeulustod neu gamddefnyddio. Os felly, codir tâl ar y Cwsmer am ei drwsio neu am un newydd. Os yw bin gwastraff gardd brown y Cwsmer yn cael ei ddifrodi, gallant wneud cais ar-lein: www.siryfflint.gov.uk/gwastraffgardd

14. Gall cwsmeriaid mewn eiddo sy'n methu cael casgliadau bin brown am resymau gweithredol wneud cais am sachau gardd Cyngor Sir y Fflint am bris o £32.00 y rôl. Mae hyn yn cynnwys y pris tanysgrifio. Dim ond sachau a roddir gan y Cyngor a fydd yn cael eu casglu. Ceisiadau dros y ffôn yn unig: 01352 701234.

Terms and Conditions of the Garden Waste Collection Service – 2022

This agreement is made between the resident ('Customer') and Flintshire County Council ('the Council') of Alltami Depot, Mold Road, Alltami, Flintshire CH7 6LG and sets out the Terms and Conditions under which the Customer may use the Council's garden waste fortnightly Collection Service ('the Service).' The Council may vary or change these Terms and Conditions from time to time. The Customer will be given 10 days written notice of any such changes.

1. In line with the Consumer Contracts (Information, Cancellation and Additional Charges) Regulations 2013, the Customer has 14 days from receipt of these Terms and Conditions to request cancellation of the Service. Requests to cancel the Service must be in writing to Flintshire County Council, Alltami Depot, Mold Road, Alltami, Flintshire CH7 6LG or emailed to streetscene@flintshire.gov.uk. Cancellations cannot be accepted over the phone.

2. Collections for the Service will only be available to Customers who have subscribed for the Service in advance and reside in Flintshire. The Council will base their decision to empty or leave a brown garden waste bin presented for collection from the identification tag or sticker on the bin, along with an electronic barcode reader (and whether the brown garden waste bin contains any contaminated material – see Clauses 11 and 12).

3. Customer subscriptions are renewable annually each year for the subsequent collection season ('Subscription Period'). Only Customers who have paid their subscription are eligible to receive the Service. The Customer will be notified of any price increases before the commencement of a new Subscription Period.

4. The subscription for the Service consists of an annual charge as follows:

   a) Payments before 28 February 2022 = £32.00 per bin;
   b) ALL online payments (throughout the collection season) = £32.00 per bin
   c) Standard rate from 1 March 2022 = £35.00 per bin

   This charge to the Customer is for the collection of one brown garden waste bin, which has been set by the Council for the period March to December. Subscription prices are subject to review at the Council's discretion. This charge to the Customer is for the collection of one brown garden waste bin, which has been set by the Council for the period March to December. Subscription prices are subject to review at the Council's discretion.

5. Additional brown garden waste bins can be supplied. Any additional brown garden waste bins will be charged at £30.00 per bin (this does not include the collection of the additional bin). This will be limited to an overall maximum of 3 bins. A Customer is not permitted to use more than 3 brown garden waste bins under the Service.

6. For the avoidance of doubt, any brown garden waste bin that is provided to the Customer by the Council (including any replacement) is under an exclusive and revocable licence and any such bin must be used in accordance with these Terms and Conditions. The Customer is not permitted to sub-licence and the Council shall retain ownership of all its Intellectual Property Rights.

7. The Council empties brown garden waste bins fortnightly, between 1st March and 10th December each year. There may be occasions when it is not possible to collect the Customer's brown bin, including but not limited to: adverse weather conditions, vehicle breakdowns and/or industrial action. If the Council misses or cannot collect the Customer's brown garden waste bin as scheduled, the Council will use its reasonable endeavours to collect the bin(s) as soon as possible. Under no circumstances will the

Council give refunds (whole or partial) for missed collections or being unable to collect a brown garden waste bin.

8. The Customer will be responsible for the brown garden waste bins, which must remain with the subscribed property in the event of the Customer moving home during the year. If the Customer moves house within Flintshire the subscription can be transferred to the new property address. Please contact the Council to confirm the details via email: streetscene@flintshire.gov.uk. If the new property within Flintshire does not have a brown bin, this will incur a new charge of £30 for the bin itself and a separate subscription to the Service as outlined in Clause 5. If the Customer moves out of the County of Flintshire, no refunds (whole or partial) will be given.

9. There are no refunds (whole or partial) for the cancellation of the Service part way through the year. If there is evidence of misuse of the Service or the brown garden waste bin by the Customer, then the Service may be cancelled. There will be no refund (whole or partial) in these circumstances.

10. Brown garden waste bin(s) must only be used for garden waste from the subscribed property of the Customer. Only garden waste may be placed loose in the bin.

    Garden waste the Council can collect: grass cuttings, hedge clippings, twigs, bark, leaves, flowers, plants, and small branches.

    Items the Council cannot accept: large branches, invasive plant species and invasive non-native plants species, turf, earth, soil, stones, gravel, food waste, animal faeces, card, plastic, general waste, pet bedding.

    The Council will only collect items listed as acceptable above and anything else will be treated as contamination.

11. Contaminated brown garden waste bins (i.e. bins containing item(s) the Council cannot accept) will not be emptied. If the Customer's brown garden waste bin(s) are contaminated, it is the Customer's responsibility to remove the item(s) of contamination prior to the next collection. If the contamination continues, the Council may cease the Service. There will be no refunds (whole or partial) issued for occasions on which the Customer's brown garden waste bin is not emptied due to contamination.

12. The brown garden waste bin must be presented at the property boundary or designated collection point by 7.00am on the Service collection day as per the Customer's collection calendar provided by the Council. The bin lid must be completely closed and no side waste will be collected, i.e. no extra waste outside or next to the bin or placed on the lid. If the Customer is unable to take the brown garden waste bin to the kerbside because of disability or health problems, he/she must apply to the Council in advance for an Assisted Collection Service.

13. If the Customer's brown garden waste bin becomes damaged, the Council will repair or replace it, free of charge, as soon as is reasonably practical, except in circumstances where the brown garden waste bin is damaged through neglect or misuse, in which case the cost of repair or replacement shall be charged to the Customer. If the Customer's brown garden waste bin is damaged, they may apply online: www.flintshire.gov.uk/gardenwaste

14. Customers at properties that do not have access to brown bin collections for operational reasons may apply for Flintshire County Council garden sacks, which will be at a charge of £32.00 per roll. This is inclusive of the subscription charge. Only sacks provided by the Council will be collected. Application by telephone only 01352 701234.